Coleg Gwent

## TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# SQA HGV / LGV Cludo Nwyddau Peryglus (ADR)




**Yn gryno**

Yn unol â'r cytundeb Ewropeaidd ynghylch cludo nwyddau peryglus yn rhyngwladol ar y ffordd, mae’n rhaid i yrwyr sy'n cludo sylweddau peryglus ddal cymhwyster ADR dilys.

Ar ôl cwblhau'r cymhwyster hwn yn llwyddiannus, byddwch yn ennill trwydded ADR, sy'n ddilys am 5 mlynedd.

Mae’r cwrs hwn ar gael fel rhan o Gyfrif Dysgu Personol. Mae Cyfrif Dysgu Personol yn fenter gan Lywodraeth Cymru sy’n cynnig cyfle i bobl gyrchu cyrsiau rhan-amser, am ddim, sy’n cynnig dysgu hyblyg a chyfleus sy’n cyd-fynd â’u ffordd o fyw bresennol (yn amodol ar gymhwysedd).

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

... pobl 19+ oed, yn byw yng Nghymru, yn gyflogedig, ac yn ennill llai na £32,371 y flwyddyn

... unrhyw un sydd am uwchsgilio eu cymhwyster gyrru presennol i'w galluogi i gludo deunyddiau peryglus

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

.. unigolion sy'n dymuno ennill neu adnewyddu eu cymhwyster ADR

**Cynnwys y cwrs**

Cwrs a gynhelir yn y dosbarth yw hwn, sydd fel arfer yn rhedeg dros 5 diwrnod yn olynol. Bydd y cwrs yn darparu'r wybodaeth a'r sgiliau i chi fel eich bod:

yn ymwybodol o'r peryglon o gludo nwyddau peryglus

yn gallu cymryd camau i leihau'r tebygolrwydd o ddamweiniau yn digwydd

yn gallu cymryd yr holl fesurau angenrheidiol dros eu diogelwch eu hunain yn ogystal â diogelwch y cyhoedd a'r amgylchedd er mwyn cyfyngu ar yr effeithiau o unrhyw ddamweiniau a fydd yn digwydd

Bydd y cwrs yn cwmpasu’r categorïau canlynol:

Modiwlau a phecynnau craidd
Pob dosbarth ADR, ac eithrio Ymbelydrol a Ffrwydrol
Modiwl tanciau

Ar ddiwrnodau olaf y cwrs byddwch yn sefyll arholiadau i ddangos bod gennych y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i fodloni'r cymhwyster.

**Gofynion Mynediad**

Lefel sylfaenol o sgiliau darllen ac ysgrifennu Saesneg.

**Gwybodaeth Ychwanegol**